OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 Rhif 507 (Cy. 42)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) (Diwygio) 2015

Gwnaed - - - -	*3 Mawrth 2015*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*6 Mawrthl 2015*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 182(2) a (3) a 203(9) a (10)(a) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), ac Atodlen 10 i'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) (Diwygio) 2015 a daw i rym ar 1 Ebrill 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "prif Orchymyn" ("*principal Order*") yw Gorchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) 2010(**2**).

Diwygio erthygl 2 o'r prif Orchymyn

2. Yn erthygl 2 (dehongli) o'r prif Orchymyn—

(a) yn lle'r diffiniad o "ardal CyngorIechyd Cymuned" ("*CommunityHealthCouncilarea*") rhodder—

> "ystyr "ardal Cyngor Iechyd Cymuned" ("*Community Health Council area*") yw'r ardal o Gymru y sefydlir Cyngor Iechyd Cymuned ar ei chyfer o dan erthyglau 3 a 3A o'r Gorchymyn hwn;"; a

(b) hepgorer diffiniad "y Cynghorau sy'n parhau" ("*the continued Councils*").

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2010/289 (Cy. 38).

Sefydlu Cyngor Iechyd Cymuned Powys

3. Ar ôl erthygl 3 (sefydlu cynghorau iechyd cymuned) o'r prif Orchymyn mewnosoder—

"**Sefydlu Cyngor Iechyd Cymuned Powys**

3A. Sefydlir Cyngor Iechyd Cymuned Powys yn effeithiol o 1 Ebrill 2015."

Diwygio erthygl 4 o'r prif Orchymyn

4. Yn erthygl 4(1) (ardaloedd cynghorau iechyd cymuned) o'r prif Orchymyn, ar ôl "ngholofn 2 o Atodlen 1" mewnosoder "a cholofn 2 o Atodlen 1A".

Swyddogaethau Cyngor Iechyd Cymuned Powys

5. Ar ôl erthygl 5 (swyddogaethau'r cynghorau newydd) o'r prif Orchymyn mewnosoder—

"**Swyddogaethau Cyngor Iechyd Cymuned Powys**

5A. Dyma swyddogaethau Cyngor Iechyd Cymuned Powys—

(i) yr hyn a osodir ym mharagraff 1(a) o Atodlen 10 i'r Ddeddf;

(ii) yr hyn a osodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 10 i'r Ddeddf; a

(iii) byddant yn cynnwys swyddogaethau cyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn a drosglwyddir iddo gan erthygl 6A."

Trosglwyddo swyddogaethau, hawliau a rhwymedigaethau i Gyngor Iechyd Cymuned Powys

6. Ar ôl erthygl 6 (trosglwyddo swyddogaethau, hawliau a rhwymedigaethau i'r cynghorau newydd) o'r prif Orchymyn mewnosoder—

"**Trosglwyddo swyddogaethau, hawliau a rhwymedigaethau i Gyngor Iechyd Cymuned Powys**

6A.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw swyddogaethau neu hawliau oedd yn arferadwy gan gyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn neu i rwymedigaethau oedd yn orfodadwy yn eu herbyn ar 1 Ebrill 2015 neu cyn hynny.

(2) Mae gan Gyngor Iechyd Cymuned Powys y buddiant o unrhyw swyddogaeth oedd yn arferadwy neu unrhyw hawl oedd yn orfodadwy gan gyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn ar 1 Ebrill 2015 neu cyn hynny.

(3) Rhaid i Gyngor Cymuned Iechyd Powys gymryd cyfrifoldeb dros unrhyw rwymedigaeth oedd yn orfodadwy yn erbyn cyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn ar 1 Ebrill 2015 neu cyn hynny."

Darparu Adroddiadau a Chyfrifon cyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn

7. Ar ôl erthygl 7 (darparu adroddiadau a chyfrifon cyn gynghorau) o'r prif Orchymyn mewnosoder—

"**Darparu Adroddiadau a Chyfrifon cyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn**

7A.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i ddarparu adroddiadau a chyfrifon ar ran cyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn am y cyfnod o 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015.

(2) Rhaid i Gyngor Iechyd Cymuned Powys gymryd y camau hynny sy'n angenrheidiol i sicrhau bod adroddiadau a chyfrifon cyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn am y cyfnod 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015 yn cael eu darparu yn unol â rheoliadau 25 a 41 o'r Rheoliadau."

Darparu ar gyfer parhad wrth arfer swyddogaethau gan Gyngor Iechyd Cymuned Powys

8. Ar ôl erthygl 8 (darparu ar gyfer parhad wrth arfer swyddogaethau) o'r prif Orchymyn mewnosoder—

"**Darparu ar gyfer parhad wrth arfer swyddogaethau gan Gyngor Iechyd Cymuned Powys**

8A. Bydd unrhyw beth a wnaed gan gyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn neu mewn perthynas â hwynt wrth arfer swyddogaeth neu mewn cysylltiad â'r swyddogaeth honno sydd yn rhinwedd erthygl 6A o'r Gorchymyn hwn yn dod yn swyddogaeth i Gyngor Iechyd Cymuned Powys yn cael effaith, i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol i barhau ei effaith ar 1 Ebrill 2015 ac wedi hynny, megis petai wedi ei wneud gan Gyngor Iechyd Cymuned Powys neu mewn perthynas ag ef."

Diddymiadau

9. Ar ôl erthygl 9 (diddymiadau) o'r prif Orchymyn mewnosoder—

"**Diddymu Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn**

9A. Diddymir Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn gydag effaith o 1 Ebrill 2015."

Diwygio erthygl 10 o'r prif Orchymyn

10. Hepgorer erthygl 10 (Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn i barhau mewn bodolaeth) o'r prif Orchymyn.

Diwygio erthygl 11 o'r prif Orchymyn

11. Hepgorer erthygl 11 (swyddogaethau'r cynghorau sy'n parhau) o'r prif Orchymyn.

Ardal Bwrdd Iechyd Lleol Cyngor Iechyd Cymuned Powys

12. Ar ôl Atodlen 1 i'r prif Orchymyn mewnosoder—

"ATODLEN 1A

Erthyglau 3A a 4

Yr Ardal Bwrdd Iechyd Lleol y sefydlir Cyngor Iechyd Cymuned Powys ar ei Chyfer

Colofn 1		*Colofn 2*
Enw'r Cyngor Iechyd Cymuned a sefydlir o dan erthygl 3A		*Ardal Bwrdd Iechyd Lleol y sefydlir y Cyngor Iechyd Cymuned ar ei chyfer*
1	Cyngor Iechyd Cymuned Powys	Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys"

Diwygio Atodlen 3 i'r prif Orchymyn

13. Hepgorer Atodlen 3 (ardaloedd o fewn prif ardal llywodraeth leol Powys (yr ardal y sefydlir Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys ar ei chyfer) y sefydlir y Cynghorau sy'n parhau ar eu cyfer ac y maent yn arfer eu swyddogaethau drostynt) i'r prif Orchymyn.

Mark Drakeford
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

3 Mawrth 2015

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) 2010 ("y prif Orchymyn").

Mae erthygl 3 yn mewnosod erthygl 3A yn y prif Orchymyn er mwyn darparu ar gyfer sefydlu Cyngor Iechyd Cymuned Powys.

Mae erthygl 4 yn diwygio erthygl 4 o'r prif Orchymyn i gyfeirio at Atodlen 1A sy'n pennu ardal Cyngor Iechyd Cymuned Powys.

Mae erthygl 5 yn mewnosod erthygl 5A yn y prif Orchymyn sy'n pennu swyddogaethau Cyngor Iechyd Cymuned Powys.

Mae erthygl 6 yn mewnosod erthygl 6A yn y prif Orchymyn sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau, hawliau a rhwymedigaethau Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn i Gyngor Iechyd Cymuned Powys.

Mae erthygl 7 yn mewnosod erthygl 7A yn y prif Orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Iechyd Cymuned Powys gymryd y camau hynny sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau y darperir adroddiadau a chyfrifon Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015.

Mae erthygl 8 yn mewnosod erthygl 8A yn y prif Orchymyn sy'n darparu i Gyngor Iechyd Cymuned Powys barhau swyddogaethau Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn.

Mae erthygl 9 yn mewnosod erthygl 9A yn y prif Orchymyn sy'n diddymu Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn.

Mae erthyglau 10, 11 a 13 yn hepgor erthyglau 10 ac 11 o'r prif Orchymyn ac Atodlen 3 iddo.

Mae erthygl 12 yn mewnosod Atodlen 1A yn y prif Orchymyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei lunio o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Mae copi ar gael gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.